# MYND ALLAN MEWN LLAWENYDD

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
Dydd Iau 30 Gorffennaf 2020

Sut ydych chi'n dygymod â'r syniad o lacio'r cyfnod clo? Rwy'n synhwyro fod yna gymysgedd gwirioneddol o deimladau - rhai wrth eu bodd; yn sicr, roedd mynd i ordeiniad rai wythnosau'n ol ac yna i drwyddedu byw y Sul diwethaf, yn rhoi'r teimlad o gynnwrf, a hyd yn oed lawenydd, wrth fynd i'r Eglwys unwaith eto. Ond ar y llaw arall, mae llawer yn hynod o nerfus o ail gydio mewn perthynasau, hyd yn oed o fod ym mhresenoldeb pobl eraill, a mygydau wyneb a diheintyddion dwylo yw arwyddion y gofal newydd a fydd yn rhan o'n bywydau a gryn amser eto.

Ond, rwy'n siŵr fod Ysbryd Duw yn ceisio ein hannog. Mae penarglwyddiaeth Duw yn cael ei ddangos, yn fy marn i, nid drwy ein gwneud yn bypedau ac gorchymyn pob llwyddiant neu fethiant, popeth da a phopeth drwg sy'n digwydd, ond drwy droi yn ein mysg i ddod â bywyd allan o farwolaeth, goleuni allan o dywyllwch, gobaith allan o ofn a chryfder allan o wendid. Mae Duw bob amser yn gweithio at iachau cyfanrwydd y greadigaeth. Ac mae'n ein gwahodd ni i fod yn rhan o hynny, i ymuno ag ef fel rhoddwyr bywyd, hebryngwyr goleuni, rhanwyr gobaith ac adeiladwyr cryfder. "Yn y byd hwn fe gewch orthrymder", meddai Iesu, "ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd." (Ioan 16.33)

Felly, mae Duw'n eich gwahodd chi a fi, wrth i'r cyfnod clo lacio, i fod yn ddewr wrth ailadeiladu cymdeithas a chodi'n ôl i fyny y rhai sydd wedi cael eu bwrw i lawr. Dyma yw gwaith y Deyrnas. Nid yw'n golygu bob yn ddi-hîd: mae yna risgiau ac fe ddylen ni ddilyn ymarfer gorau ac mae'n rhaid i ni ystyried yn ddifrifol sut y gallwn ni aros yn ddiogel. Er hynny, y prif syniad a'r bwriad a ddylai fod yn ein meddyliau ar hyn o bryd yw "Beth allaf i gyfrannu at les cymdeithas yn gyffredinol? Sut y gallai i fod yn llysgennad i'm cymydog o rym iachusol Crist ar adeg fel hyn?" Croes Iesu Grist yw'r marc sy'n dangos fod Duw yn teimlo ein poen yn ei galon a, thrwy ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, fod Iesu'n claddu ein pechod, ein hofn a'n pryder. Ei atgyfodiad yw'r marc sy'n dangos sut y bydd Duw'n rhoi'r posibilrwydd o fywyd newydd a mynegiant o gariad ac mae'n rhaid i ninnau hawlio'r cyfleoedd y mae'n ei roi i ni.

"Mewn heddwch yr ewch allan ac mewn heddwch y'ch arweinir" (Esiea 55.12) oedd addewid Duw i genedl Israel pan oedd yn dod allan o gyfnod clo alltudiaeth ac anobaith am ei bywyd cenedlaethol ei hunan, a dydw i ddim yn credu ei bod yn rhy annhebygol bod Duw'n dymuno i ninnau wynebu'r dyfodol mewn ysbryd tebyg. Mae'n rhaid i ni gloddio'n ddwfn i'n hadnoddau ysbrydol i ddarganfod unwaith eto ein bod yn

hebryngwyr llawenydd, sef y llawenydd cudd sy’n cael ei blannu yn ein calonnau pan fyddwn yn gweld yr hyn y mae Teyrnas Dduw yn gallu bod yn ei llawnder. Mae’n rhaid i ni fentro allan i greu heddwch, ar ôl darganfod o'r newydd yr heddwch y mae Duw'n ei roi i'w blant ac sydd i'w weld pan fyddwn ni'n helpu eraill drwy wasanaeth cariadus ac iachau’r rhanedig a'r toredig.

Os yw ein ffydd yn golygu unrhyw beth, mae'n golygu fod yn rhaid i Gristnogion fod ar y blaen yn creu cymdeithas newydd lle gall cymod, heddwch a chyfiawnder ddwyn ffrwyth. Ar ddiwedd yr Efengylau, mae’r disgyblion yn ymddangos yn eithaf dryslyd ac yn ansicr beth i’w wneud nesaf. A dydyn ninnau, wrth i ni ddod, yn ddryslyd, i gysylltiad â chymdeithas unwaith eto, ddim yn annhebyg iddyn nhw. Rhoddodd Iesu hergwd ysgafn (well, efallai nid mor ysgafn â hynny) – “Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i'r greadigaeth i gyd” (Marc 16.15 – o ddiwedd hirach, efallai ychwanegol, i’r Efengyl yn ôl Marc, er bod pob un o’r Efengylau yn gorffen yn debyg i hyn). Sut all Teulu Asaph fod yn newyddion da i bobl gogledd ddwyrain a chanolbarth Cymru? Gallwn fod yn sicr o un peth, mae Iesu’n ein hannog i symud ymlaen i annog gobaith a bywyd newydd.

**Dyma fy llythyr bugeiliol diwethaf ar hyn o bryd**. Rwy’n cymryd gwyliau fis Awst ac yn gobeithio, efallai, gychwyn ar lythyrau bugeiliol misol, parhaol, yn yr Hydref. Rwy’n hynod o ddiolchgar am y sylwadau positif a’r anogaeth rwyf wedi’u derbyn. Bydded i Dduw eich bendithio’n helaeth, eich mynediad a’ch dyfodiad.

+Gregory Llanelwy